

**25**  
YEARS

Terrence  
HIGGINS  
TRUST



# HIV ac Iechyd Rhywiol:

**10 peth y gall  
Llywodraeth Cynulliad  
Cymru i'w gwneud**

# HIV and Sexual Health:

**10 things the  
Welsh Assembly  
Government can do**

"It is my aspiration that health finally will be seen not as a blessing to be wished for, but as a human right to be fought for."

"Fy ngobaith yw y bydd iechyd yn cael ei weld nid fel bendith y mae pobl yn ei ddymuno eithr hawl dynol i ymladd drosto."

**Kofi Annan**

- 1) Lleihau HIV heb ei ddeagnosio o 32% i 25% erbyn 2012
- 2) Gwneud Addysg Rhyw a Pherthynasau yn rhan o'r cwricwlwm craidd
- 3) Rhoi hygyrchedd i bawb ym Mhrydain i driniaeth HIV sy'n rhad ac am ddim
- 4) Cyflwyno rhaglen frechu rhag HPV (Feirws Papiloma Dynol)
- 5) Cynyddu sgrinio am glamidia
- 6) Ailfuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl HIV arbenigol
- 7) Cynyddu hyfforddiant HIV ar gyfer ymarferyddion gofal cyntaf
- 8) Cyflwyno mesurau i wella iechyd rhywiol mewn carchardai
- 9) Cynyddu rhôl nyrsus ysgol
- 10) Hybu sgrinio Heintiau a Drosglwyddir drwy Ryw i bob defnyddydd cyffuriau

- 1) Reduce undiagnosed HIV from 32% to 25% by 2012
- 2) Make Sex and Relationships Education part of the core curriculum
- 3) Give access to free HIV treatment to everyone living in the UK
- 4) Introduce a vaccination programme for HPV
- 5) Increase chlamydia screening
- 6) Reinvest in specialist HIV mental health services
- 7) Increase HIV training for primary care practitioners
- 8) Introduce measures to improve sexual health in prisons
- 9) Expand the role of school nurses
- 10) Promote STI screening to all drug users

Ysgrifennwyd y cyhoeddiad hwn gan Rowan Harvey ac fe'i golygwyd gan Dîm Polisi Ymddiriedolaeth Terrence Higgins gyda syniadau a mewnbwn oddi wrth staff, gwirfoddolion, defnyddyddion gwasanaeth, cefnogyddion Ymddiriedolaeth Terrence Higgins ac Ymddiriedolaeth Terrence Higgins Cymru.

Am gopïau ychwanegol cysylltwch â [campaigns@tht.org.uk](mailto:campaigns@tht.org.uk) neu ymwelwch â [www.tht.org.uk/publications](http://www.tht.org.uk/publications).

This publication was written by Rowan Harvey and THT Cymru and edited by THT's Policy Team, with ideas and input from THT staff, volunteers, service users and supporters.

For additional copies contact [campaigns@tht.org.uk](mailto:campaigns@tht.org.uk) or visit [www.tht.org.uk/publications](http://www.tht.org.uk/publications).

## Dear Reader

The 4 July 2007 marked the start of Terrence Higgins Trust's 25th anniversary year. As well as commemorating Terry's death and reflecting on the cost of the HIV epidemic so far, we are using the year to look forward and renew our commitment to reducing the spread of the virus and increasing understanding of its personal and social impact. This publication sets out ten points on which we would like the Welsh Assembly Government to take action on, which we will be campaigning in the months and years ahead.

In Wales rates of new HIV diagnoses have continued to rise in each of the last 25 years. This becomes harder to understand when we look at countries that have managed to significantly reduce their new diagnoses, often and quite rightly with the help of funding and support from the UK through the Department for International Development. We know what needs to be done and we have helped it happen in other countries. Now we need the political will to seriously tackle our own epidemic head on and make ours an example that other countries can look to.

Sadly, prejudice and discrimination have played their part in ensuring that the UK epidemic, despite its severe impact, has been largely silent and unseen. People living with the virus are still unwilling to be open about their condition for fear of stigma and reprisals. As a result the voices of people living with HIV and a range of other sexually transmitted infections have not been as loud as for other conditions and they still need their elected representatives to speak up on their behalf.

This publication is aimed at those working in and with the Welsh Assembly Government. We have separate publications specifically for central Government and the Scottish Parliament - for copies of these, or for further information, please contact us at [campaigns@tht.org.uk](mailto:campaigns@tht.org.uk). We hope that, having read them, you'll feel inspired to take action and look forward to working with you in the years ahead.

**Policy and Public Affairs Team**  
**Terrence Higgins Trust**  
July 2007

## Annwyl Ddarllennydd

Roedd 4 Gorffennaf yn ddechrau ar y dathlu gan Ymddiriedolaeth Terrence Higgins o'i phenblwydd yn 25 oed. Rydym yn coffa marwolaeth Terry ac yn adlewyrchu ar gost y pla hyd yn hyn ond hefyd yn defnyddio'r flwyddyn i edrych ymlaen ac adnewyddu ein hymroddiad i atal lledaeniad y feirws a chynyddu dealltwriaeth o'i effaith personol a chymdeithasol. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi deg pwynt yr ydym yn awyddus i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithredu arnynt a thros y rhain byddwn yn ymgychu yn y misoedd a blynnyddoedd i ddod.

Yng Nghymru mae graddfeydd achosion newydd o HIV wedi parhau i godi ym mhob un o'r 25 mlynedd ddiwethaf. Aiff hyn yn arnos ei ddeall pan edrychwn ar wledydd sydd wedi llwyddo lleihau eu hachosion newydd yn sylweddol, yn aml ac yn ddigon cywir gyda chymorth a chefnogaeth Prydain drwy'r Adran Datblygu Rhyngwladol. Gwyddwn beth sydd angen ei wneud ac rydym wedi cynorthwyo hyn i ddigwydd mewn gwledydd eraill. Nawr mae eisiau yr ewyllys gwleidyddol arnom i fynd i afael â'n pla ein hunain a'i wneud yn enghraifft i wledydd eraill.

Yn anffodus mae rhagfarn a chamwahaniaethu wedi chwarae rhan flaenllaw wrth sicrhau bod pla Prydain, er gwaethaf ei effaith andwyol, wedi aros yn fud a chudd. Mae pobl sy'n byw gydag HIV yn anfodlon o hyd i fod yn agored am eu cyflwr rhag ofn ymosodiadau a gwarthnod. Fel canlyniad ni fu lleisiau pobl sy'n byw gydag HIV ac ystod o heintiau a drosglwyddir drwy ryw mor uchel â lleisiau pobl sy'n byw gyda chyflyrau eraill ac o hyd mae angen i'w cynrychiolyddion etholedig godi llais ar eu rhan.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei anelu at bobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a throsti. Mae gennym gyhoeddiadau ar wahân i Lywodraeth Prydain Fawr a Senedd yr Alban - am gopiâu o'r rhain neu am wybodaeth bellach, cysylltwch â ni yn [campaigns@tht.org.uk](mailto:campaigns@tht.org.uk). Gobeithiwn y bydd darllen hyn yn eich ysbrydoli i weithredu ac edrychwn ymlaen i weithio gyda chi yn y blynnyddoedd a ddaw.

**Tim Polisi a Materion Cyhoeddus**  
**Ymddiriedolaeth Terrence Higgins**  
Gorffennaf 2007

## 1. Reduce undiagnosed HIV from 32% to 25% by 2012

Currently around a third of people living with HIV in the UK don't know they have it; that's around 25,000 people.

Reducing the rate of undiagnosed HIV in Wales has to be a central part of tackling our epidemic. Research suggests that people who don't know they have HIV are more likely to pass the virus on than those who have been tested. Being diagnosed late also carries severe health risks for the individual and around a quarter of all HIV related deaths last year could have been avoided if those people had been diagnosed and started on medication earlier.

We would like to see the Welsh Assembly Government, in conjunction with the other UK Governments, take measures to reduce the percentage of people whose HIV infection has not been diagnosed from 32% to 25% by 2012. We believe that this would be a realistic target, achievable through a holistic strategy including raising awareness, reducing the stigma surrounding the condition, improving outreach programmes, improving community testing, increasing clinic capacity, increasing testing options and reducing the numbers of new infections. The voluntary sector also has an important part to play and we look forward to working with the Welsh Assembly Government to help make it happen.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to work with the other UK Governments to reduce the rate of undiagnosed HIV infection from 32% to 25% across the UK by 2012.**

## 1. Lleihau HIV heb ei ddeagnosisio o 32% i 25% erbyn 2012

Ar hyn o bryd mae tua thraean o bobl sy'n byw gydag HIV heb sylweddoli bod y cyflwr hwn arnynt; mae'r ganran honno gyfystyr â thua 25,000 o bobl.

Mae'n rhaid i leihau graddfa HIV heb ei ddeagnosisio yng Nghymru fod yn rhan ganolog o fynd i'r afael â'n pla. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl nad ydynt yn gwybod bod ganddynt HIV yn fwy tebygol o drosglwyddo'r feirws na'r rhai a gawsent eu profi. Mae cael deagnosis hwyr hefyd yn dwyn â pheryglon iechyd yn ei sgîl i'r unigolyn a gellid fod wedi osgoi tua chwarter marwolaethau cysylltiedig ag HIV y llynedd pe tai'r bobl wedi'u deagnosisio ac wedi cychwyn ar feddyginiaeth yn gynt.

Hoffem weld Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad â Llywodraethau eraill Prydain Fawr gymryd camau i leihau canran y bobl y mae eu HIV heb ei ddeagnosisio o 32% i 25% erbyn 2012. Credwn fod hon yn nod realistig a chyraeddadwy drwy strategaeth holistaidd sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth, lleihau gwarthnod y cyflwr, gwella rhaglenni allgyraedd, gwella profi yn y gymuned, cynyddu cynhwysedd clinigau, amlhau dewisiadau profi a lleihau nifer y heintiadau newydd. Mae gan y sector wirfoddol ran bwysig i'w chwarae ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu hyn i ddigwydd.

Gweithred:

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda Llywodraethau eraill Prydain Fawr i leihau graddfa haint HIV heb ei ddeagnosisio o 32% i 25% ar draws Prydain Fawr erbyn 2012.**

## 2. Make Sex and Relationships Education part of the core curriculum

We believe that every young person in Wales should be given the information they need to lead healthy and responsible sex lives and to protect themselves from sexually transmitted infections and unintended pregnancy. Young people in Britain have the worst sexual health in Western Europe and this is partly due to inconsistent and poor quality Sex and Relationships Education (SRE) in many schools.

Currently, while the Assembly have produced excellent guidance on how Sex and Relationships Education should be taught, individual schools decide the extent of the SRE they provide. This makes quality variable and subject to the personal views and prejudices of staff and governors. It can also put undue pressure on staff to defend their teaching decisions to parents, because they have little central support to fall back on. SRE should examine the social implications of sex and relationships, rather than just human biology, in an effort to better equip young people to deal with the realities of their relationships and sex lives.

The Welsh Assembly Government should include SRE in the core curriculum to ensure that the full curriculum is taught, that schools build SRE into their lesson planning and that sufficient classroom time is devoted to the subject. This will help ensure all children are equipped for adult life and not left to rely on the rumours and misinformation in the playground.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to make Sex and Relationships Education a core part of the National Curriculum to ensure that every child receives a high standard of SRE. This should include ensuring that SRE explores all forms of sexuality to avoid disadvantaging lesbian, gay, bisexual and transgender young people.**

## 2. Gwneud Addysg Rhyw a Pherthynasau yn rhan o'r cwricwlwm craidd

Credwn y dylid rhoi i bob person ifanc yng Nghymru y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i fyw bywydau rhywiol iach a chyfrifol ac i amddiffyn eu hunain rhag heintiau a drosglwyddir drwy ryw a beichiogrwydd anfwriadol. Mae gan bobl ifanc ym Mhrydain yr iechyd rhywiol gwaethaf yng Ngorllewin Ewrop ac mae hyn yn rhannol oherwydd Addysg Rhyw a Pherthynasau anghyson ac o ansawdd gwael mewn llawer o ysgolion.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu arweiniad ardderchog ar sut y dylid dysgu Addysg Rhyw a Pherthynasau. Serch hynny ysgolion unigol sy'n penderfynu i ba raddau y darperir yr addysg hon. Mae hyn yn peri bod ansawdd yr addysg yn amrywio a'i bod yn bosibl dylanwadu ar yr addysg ei hun gan farn bersonol a rhagfarnau'r staff a llywodraethyddion. Gall hefyd roi gormod o bwysau ar staff i amddiffyn eu penderfyniadau addysgiadol i rieni oherwydd prinder cefnogaeth yn ganolog. Dylai Addysg Rhyw a Pherthynasau archwilio i oblygiadau cymdeithasol rhyw a pherthynasau yn hytrach na bioleg y corff dynol yn unig, mewn ymdrech i arfogi pobl ifainc yn well wrth ddelio gyda'u perthynasau a'u bywydau rhywiol.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys Addysg Rhyw a Pherthynasau yn y cwricwlwm craidd i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn cael ei addysgu, bod ysgolion yn cynnwys Addysg Rhyw a Pherthynasau yn eu proses cynllunio gwersi a bod digonedd o amser y stafell ddosbarth yn mynd ar y pwnc hwn. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod pob plentyn wedi'i arfogi ar gyfer bywyd oedolyn ac nad ydynt yn gorfod dibynnu ar gless ac anwybodaeth yr iard ysgol.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud Addysg Rhyw a Pherthynasau yn rhan graidd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn safon uchel o Addysg Rhyw a Pherthynasau. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod Addysg Rhyw a Pherthynasau yn archwilio pob math ar rywioldeb i osgoi anffafrio pobl ifainc sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.**

Gweithred:

### 3. Give access to free HIV treatment to everyone living in the UK

Changes to NHS regulations in 2004 designed to counter "treatment tourism" mean that some people with HIV who are living long term in the UK can be refused HIV treatment unless they can pay. This includes people refused asylum but allowed to stay (because their country is too dangerous to return to) and undocumented migrants.

In the case of HIV, while the regulations are intended to save the NHS money, in the longer term they have the potential to do a great deal of damage, not only to individual health but also to the wider public health. A 2005 Health Select Committee Report agreed with us that these regulations stand to cost the NHS far more financially than they will save, because emergency treatment is free to all. People with HIV will have to be taken to Accident & Emergency every time they become severely ill, which will happen increasingly often as their HIV progresses. A week in intensive care will wipe out savings on a year's HIV treatment, and leaving people untreated leaves them more able to transmit HIV to others.

Currently, TB and all STIs other than HIV are exempted from NHS charges on public health grounds. It makes little sense to ensure free treatment for gonorrhoea but not for HIV, which is fatal if untreated, and far more harmful if passed on. We would like to see HIV included alongside these other conditions so that people living with the virus are not given less favourable treatment as a result of their condition.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to include HIV alongside all other STIs and TB among those conditions exempted from NHS charging.**

### 3. Rhoi hygyrchedd i bawb ym Mhrydain i driniaeth HIV sy'n rhad ac am ddim

Mae newidiadau i reoleiddiadau GIG yn 2004 gyda'r bwriad o atal "twristiaeth triniaeth" yn golygu y gall rhai pobl gydag HIV sy'n byw ym Mhrydain yn hir dymor gael gwrthod triniaeth HIV iddynt oni allant dalu. Mae hyn yn cynnwys pobl wrthodedig am loches ond sydd wedi'u caniatáu i aros (oherwydd y perygl yn eu mamwlad os ydynt yn dychwelyd) a mewnfudyddion heb eu cofnodi.

O ran HIV, tra bo'r rheoleiddiadau wedi'u bwriadu i arbed arian i'r GIG, yn y tymor hwy mae'n bosibl y gwnânt lawer i wneud difrod sylweddol nid i iechyd unigolion yn unig ond hefyd i iechyd y cyhoedd yn ehangach. Cytunodd Adroddiad Iechyd gan Bwyllgor Dethol yn 2005 gyda ni y gallai'r rheoleiddiadau hyn gostu llawer mwy i'r GIG na byddant yn ei arbed oherwydd bod triniaeth frys yn rhad ac am ddim i bawb. Bydd yn rhaid cludo pobl gydag HIV i'r Adran Frys a Damweiniau bob tro yr ânt yn sâl iawn a bydd hyn yn digwydd yn amlach fel yr â'r salwch yn ei flaen. Bydd wythnos yng ngofal dwys yn gwario'r arbedion o flwyddyn gron o driniaeth HIV a bydd gadael pobl heb eu trin yn eu gadael yn fwy tebygol o drosglwyddo HIV i eraill.

Ar hyn o bryd nid yw'r GIG yn codi am drin y diciâu a heintiau eraill a drosglwyddir drwy ryw ar sail iechyd cyhoeddus. Ychydig o synnwyr mae'n ei wneud i sicrhau triniaeth yn rhad ac am ddim i drin gonorea ond nid HIV, sy'n anghyhoeddus heb driniaeth, a llawer mwy niweidiol os mae'n cael ei drosglwyddo. Hoffem weld HIV yn cael ei gynnwys ochr yn ochr â'r cyflyrau eraill hyn fel na thrinir pobl sy'n byw gyda'r feirws yn llai ffafriol fel canlyniad i'w cyflwr.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys HIV ochr yn ochr â phob haint arall a drosglwyddir drwy ryw a'r diciâu ymhlith y cyflyrau nad yw GIG yn codi am eu trin.**

Gweithred:

## 4. Introduce a vaccination programme for HPV

Papillomaviruses are a diverse group of viruses, some sexually transmitted strains of which are associated with the development of genital warts, cervical cancer, and other types of genital and anal cancers. It is estimated that over 80% of sexually active women in the UK will contract papillomaviruses at some point in their life and the resulting cervical cancers kill over 1000 women in the UK every year.

A new vaccine has just been licensed in the UK which offers protection against HPV types 16 and 18, which are responsible for 70% of all cervical cancers and types 6 and 11, which cause about 90% of cases of genital warts. Other similar vaccines are also in development. The vaccine is likely to be highly cost effective if widely administered as it will reduce the need for spending on associated cancer treatment.

To be effective the vaccine must be administered before the individual has contracted certain HPV strains and so is most effective if administered before people become sexually active. It is licensed for young people aged between nine and 25 years old and we would like to see it given to all pre-teens in the UK. Sadly, objections have already been raised about the vaccine being given to young people on the basis that it will encourage them to have riskier sex at an earlier age. This is groundless scaremongering and we call on the Welsh Assembly Government to stand firm to protect the health of those at risk in Wales.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to implement a HPV vaccination programme for all pre-teens in Wales without delay.**

## 4. Cyflwyno rhaglen frechu rhag HPV (Feirws Papiloma Dynol)

Casgliad amrywiol o feirysau yw'r feirysau papiloma. Mae rhai mathau a drosglwyddir drwy ryw yn gysylltiedig gyda datblygu dafadennau ar yr organau rhywiol, cancr ceg y groth a mathau eraill o ganrau ar yr organau rhywiol a'r anws. Amcangyfrifir y bydd dros 80% o fenywod sy'n weithgar yn rhywiol yn cael feirysau papiloma ryw ben yn ystod eu bywydau a bydd y canrau sy'n dilyn yn lladd dros 1000 o fenywod ym Mhrydain bob blwyddyn.

Mae brechiad newydd sydd newydd ei drwyddedu ym Mhrydain sy'n cynnig amddiffyniad yn erbyn feirws papiloma dynol (mathau 16 a 18) sy'n gyfrifol am 70% o'r holl ganrau ceg y groth a mathau 6 ac 11 sy'n achosi 90% o achosion o ddafadennau ar yr organau rhywiol. Hefyd mae brechiadau eraill, tebyg yn cael eu datblygu. Y tebyg yw y bydd y brechiadau hyn yn effeithiol iawn o ran cost os dosrennir hwy yn eang am y bydd yn lleihau'r angen i wario ar driniaeth cancr sy'n gysylltiedig.

Er mwyn bod yn effeithiol mae'n rhaid rhoi'r brechiad cyn bod yr unigolyn wedi dal rhai mathau arbennig o feirws papiloma dynol ac felly mae'n fwyaf effeithiol os rhoddir ef cyn bod pobl yn weithgar yn rhywiol. Mae'r drwydded am bobl sydd rhwng 9 oed a 25 a hoffem weld y brechiad yn cael ei roi i bob person iau na'r ardegau ym Mhrydain. Yn ddigon trist mae rhai gwrthwynebiadau wedi codi am roi'r brechiad i bobl ifainc ar y sail y bydd yn eu hannog i gael rhyw fwy peryglus ar oed cynharach. Codi ofnau disail yw peth fel hyn a galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd safiad cadarn i amddiffyn iechyd y rhai mewn perygl yng Nghymru.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu rhaglen frechu yn erbyn Feirws Papiloma Dynol ar gyfer pob plentyn cyn-ardegol yng Nghymru yn ddioed.**

Gweithred:

## 5. Increase chlamydia screening

Chlamydia is the most common sexually transmitted infection in the UK, particularly amongst young people, with well over 100,000 diagnoses in 2005, around 4,000 of which were in Wales. A significant proportion of cases, particularly amongst women, are asymptomatic and liable to remain undetected. If untreated chlamydia can lead to problems such as infertility and ectopic pregnancy in later life.

To try to deal with the epidemic the Department of Health set up the Chlamydia Screening Programme for England in 2002, to reduce new chlamydia infections by diagnosing and treating people aged under 25 and preventing them passing it to future sexual partners.

Unfortunately the Programme does not extend to Wales and is not currently screening sufficient numbers of young people to have much of an impact on new transmissions. We would like to see a similar initiative in Wales to ensure at least 25% of young people have been screened by the time they turn 25. This would have a strong epidemiological impact, ensuring more cases get treated and so fewer people pass it on. It would also help to reduce the stigma surrounding testing for other STIs and increase general awareness.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to create a Chlamydia Screening Programme for Wales to ensure at least 25% of young people have been screened by the time they turn 25.**

## 5. Cynyddu sgrinio am glamidia

Clamidia yw'r haint mwyaf cyffredin a drosglwyddir drwy ryw ym Mhrydain, yn enwedig ymhlith pobl ifainc gydag ymhell dros 100,000 yn cael eu deagnosisio yn 2005, a thua 4,000 o'r rhain yng Nghymru. Mae canran arwyddocaol o achosion yn enwedig ymhlith menywod nad ydynt yn arddangos sumptomau ac maent yn debygol i aros heb ei chanfod. Os na thrinir clamidia gall arwain at broblemau fel anffrwythlondeb a beichiogrwydd ectopig yn nes ymlaen.

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r pla sefydlodd Adran Iechyd Raglen Sgrinio Clamidia i Loegr yn 2002 i leihau heintiadau newydd o glamidia drwy ddeagnosisio a thrin pobl o dan 25 oed a'u hatal rhag ei drosglwyddo i bartneriaid rhywiol y dyfodol.

Yn anffodus nid yw'r Rhaglen yn ymestyn i Gymru ac ar hyn o bryd nid yw'n sgrinio digon o bobl ifainc i gael fawr o effaith ar drosglwyddiadau newydd. Hoffem weld menter debyg yng Nghymru i sicrhau bod o leiaf 25% o bobl ifainc yn cael eu sgrinio erbyn eu penblwyddi yn 25 oed. Byddai hyn yn cael effaith epidemiolegol gref gan sicrhau bod mwy o achosion yn derbyn triniaeth fel bod llai o bobl yn ei drosglwyddo. Byddai'n helpu lleihau gwarthnod o gwmpas profi ar gyfer heintiau a drosglwyddir drwy ryw a chynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i greu Rhaglen Sgrinio Clamidia i Gymru i sicrhau bod o leiaf 25% o bobl ifainc wedi'u sgrinio erbyn yr amser eu bod yn 25 oed.**

Gweithred:

## 6. Reinvest in specialist HIV mental health services

People living with HIV are more likely to experience depression and other mental health problems than the general population. A 2002 Sigma Research study found that 67% of people they interviewed had experienced problems with anxiety or depression in the preceding year and that 19% of those had not received any help to address their problems. These problems may not be acute but can be chronic and debilitating, leading to poor adherence to treatment and social difficulties.

Since that report was produced in many areas there has been a significant local disinvestment in specialist HIV mental health and counselling services. Often people living with HIV now find that clinics do not have the time and resources to help them find the support they need. It is not uncommon for people reporting problems to clinics to be given a list of phone numbers and told to find a service willing to accept them by themselves. Helping people get the support they need at an early stage reduces the likelihood that their condition will worsen to the point of a critical episode and saves money for the NHS in the long run.

There needs to be increased investment in a range of specialist services, including psychosexual services, particularly as the numbers of people needing them have continued to grow. Links between HIV outpatient clinics and these support services need to be strengthened to help with referrals of patients who are experiencing problems.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to reinvest in specialist HIV counselling services and strengthen their link to HIV and sexual health services to reduce critical episodes.**

## 6. Ailfuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl HIV arbenigol

Mae pobl sy'n byw gydag HIV yn fwy tebygol i brofi iselder ysbryd a phroblemau iechyd meddwl eraill na'r boblogaeth gyffredinol. Darganfu astudiaeth Ymchwil Sigma 2002 fod gan 67% o bobl broblemau gyda phryder neu iselder ysbryd yn y flwyddyn ddiwethaf a bod 19% o'r rhain heb dderbyn unrhyw gymorth i leddfu ar eu hanawsterau. Mae'n bosib nad yw'r problemau hyn yn ddirifol ond gallant fod yn hir dymor ac yn cyfyngu ar fywydau pobl sy'n arwain at ymlyniad gwael o ran cymryd meddyginiaeth ac anawsterau cymdeithasol.

Ers cynhyrchu'r adroddiad hwnnw mewn llawer o ardaloedd bu dadfuddsoddiad lleol sylweddol mewn gwasanaethau iechyd meddwl HIV arbenigol a chwmsela. Yn aml erbyn hyn mae pobl sy'n byw gydag HIV yn cael nad oes gan glinigau amser ac adnoddau i'w helpu i ganfod y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt. Nid yw'n anghyffredin chwaith i bobl sy'n dweud wrth glinigau am broblemau i dderbyn rhestr o rifau ffôn ac anogaeth i ddod o hyd i ryw wasanaeth sy'n fodlon eu derbyn ar eu liwt eu hunain. Mae helpu pobl i gael y cymorth angenrheidiol yn gynharach yn lleihau tebygolrwydd y bydd eu cyflwr yn gwaethygu i'r graddau lle ânt i argyfwng ac yn arbed arian i'r GIG yn y tymor hir.

Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn ystod o wasanaethau arbenigol gan gynnwys gwasanaethau seicorywiol yn enwedig oherwydd nifer gynyddol y rhai sydd eu heisiau. Mae angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng y clinigau allglaf HIV a'r gwasanaethau cefnogi i rwyddhau cyfeirio cleifion sy'n cael problemau.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adfuddsoddi mewn gwasanaethau cwnsela HIV arbenigol a chryfhau eu cysylltiadau i wasanaethau HIV ac iechyd rhywiol i leihau argyfyngau.**

Gweithred:

## 7. Increase HIV training for primary care practitioners

A recent study carried out at City University found that around half of participants living with HIV who had faced HIV prejudice or discrimination in the preceding year said it had been at the hands of a medical professional, usually a GP or dentist. The study regularly intervenes to help people refused treatment or given second class services because of their HIV status.

All primary care staff need to be given clear guidance, relevant to their profession, in how to respond appropriately to people with HIV. In particular all staff need to be aware of patient concerns about confidentiality and the reasons for this. Some, including dentists, need to be aware of their responsibilities under the Disability Discrimination Act around the provision of goods and services to stop them refusing services to those in need.

GPs also have an important role to play in diagnosing people with HIV and providing them with ongoing care. It is essential that GPs feel confident about this rapidly changing area of medical science and the Wales NHS Directorate should provide, or support the development of, regularly updated guidelines for GPs on best practice on issues including testing, referrals and information.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to develop or support the development of clear guidelines for all primary care staff, to ensure equitable and quality treatment for people living with HIV, and to include this information in all training for all new and existing staff. In addition, we ask that they provide GPs with regularly updated guidelines for best practice on issues including testing, referrals and information.**

## 7. Cynyddu hyfforddiant HIV ar gyfer ymarferyddion gofal cyntaf

Darganfu astudiaeth a wnaed ym Mhrifysgol y Ddinas fod tua hanner y bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth sy'n byw gydag HIV a wynebai ragfarn neu gamwahaniaethu yn y flwyddyn gynt a ddywedodd mai o du proffesiynolyn meddygol, fel arfer meddyg teulu neu ddeintydd oedd hyn. Mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins yn ymyrryd yn rheolaidd i helpu pobl y gwrthodwyd triniaeth iddynt neu y rhoddwyd gwasanaethau ail ddsbarth iddynt oherwydd eu statws HIV.

Mae angen i bob aelod o staff gofal cyntaf dderbyn arweiniad clir, perthnasol i'w broffesiwn ar sut i ymateb yn briodol i bobl gydag HIV. Yn enwedig mae angen i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o bryderon y cleifion am gyfrinacholdeb a'r rhesymau am hyn. Mae rhai, gan gynnwys deintyddion, angen fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Camwahaniaethu yn erbyn Pobl Anabl o gwmpas darparu nwyddau a gwasanaethau i'w hatal rhag gwrthod gwasanaethau i'r rhai mewn angen.

Mae gan feddygon teulu ran bwysig i'w chwarae hefyd mewn deagnosisio pobl gydag HIV a rhoi triniaeth barhaus iddynt. Mae'n hanfodol bod meddygon teulu'n teimlo'n hyderus am y maes hwn o wyddoniaeth feddygol sy'n newid yn gyflym a dylai Bwrdd Cyfarwyddo GIG Cymru ddarparu arweiniadau a ddiweddarir yn gyson i feddygon teulu ar ymarfer orau ar faterion sy'n cynnwys profi, cyfeiriadau a gwybodaeth neu gefnogi datblygu'r arweiniad hwn.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu (neu gefnogi datblygu) arweiniadau clir ar gyfer pob aelod o staff gofal cyntaf i sicrhau triniaeth deg o safon ar gyfer pobl sy'n byw gydag HIV a chynnwys y wybodaeth hon ym mhob hyfforddiant ar gyfer staff newydd a phresennol. Yn ogystal â hyn gofynnwn eu bod yn darparu i feddygon teulu arweiniadau a ddiweddarir yn rheolaidd ar ymarfer orau ar faterion sy'n cynnwys profi, cyfeiriadau a gwybodaeth.**

Gweithred:

## 8. Make condoms easily available in prisons

Currently, condoms are only available in most prisons by prescription and therefore at the discretion of individual medical officers and Governors. In 1995, the Prison Service's Healthcare Director wrote to prison doctors informing them of their duty of care to prescribe condoms to prisoners when they judge that there is a risk of HIV infection as a result of sexual behaviour. Despite this many prisons still don't make condoms available to prisoners. Sexual activity may not be legal in prisons, but it is accepted as widespread and the risks must be addressed.

Concerns about the transmission of HIV within the prison population are clearly important. However, equally so is the health of people who are already living with HIV. Contracting another sexually transmitted infection when you are already living with HIV can contribute to faster progression of the virus, as well as heightening the possibility of passing on both conditions. Hepatitis A, B and C are already major problems within prisons, and other STIs will spread where there are not adequate prevention measures in place. Making condoms freely available would be a simple and cost effective way of tackling the spread of both HIV and other STIs in prisons.

As there are more Welsh people in prisons in England than there are in prisons in Wales, we also call on the Assembly to intervene with the Home Office to ensure that condoms are freely available in prisons across the UK.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to make it compulsory for all prisons in Wales to make condoms available freely through the general prison population.**

## 8. Peri bod condomau'n hawdd eu cael yn y carchar

Ar hyn o bryd mae condomau dim ond ar gael yn y rhan fwyaf o garchardai drwy bresgripsiwn ac felly ar drugaredd doethineb y swyddogion meddygol a Llywodraethyddion unigol. Ym 1995 ysgrifennodd Cyfarwyddydd Gofal Iechyd Gwasanaeth y Carchardai at feddygon carchar yn rhoi gwybod iddynt o'u dyletswydd gofal i roi presgripsiynau am gondomau i garcharorion pan farnant fod perygl o heintiad HIV o ganlyniad i ymddygiad rhywiol. Er gwaethaf hyn mae llawer o garchardai o hyd yn dewis peidio â rhoi condomau i garcharorion. Er nad yw gweithgarwch rhywiol yn gyfreithlon mewn carchardai mae'n hysbys ei fod yn ddigon cyffredin ac rhaid gweithredu i leddfu ar y peryglon.

Mae pryderon am drosglwyddo HIV o fewn poblogaeth y carchardai yn bwysig ddigon. Serch hynny mae iechyd y rhai sy'n byw gydag HIV yn barod yr un mor bwysig. Gall dal haint arall a drosglwyddir drwy ryw pan ydych eisoes yn byw gydag HIV gyfrannu at yrru'r feirws ar ei hynt yn gynt yn ogystal â chynyddu'r posibiliad o drosglwyddo'r ddau gyflwr. Mae Hepateitis A, B ac C eisoes yn broblemau mawr o fewn carchardai a bydd heintiau eraill a drosglwyddir drwy ryw yn lledaenu lle na cheir mesurau atal digonol. Byddai peri bod condomau ar gael yn ddirwystr yn ffordd seml ac effeithiol o ran cost o fynd i afael ag atal lledaeniad HIV a heintiau eraill a drosglwyddir drwy ryw mewn carchardai.

Am fod mwy o bobl Cymru mewn carchardai yn Lloegr na sydd mewn carchardai yng Nghymru galwn hefyd ar y Cynulliad i ymyrryd gyda chymorth y Swyddfa Gartref i sicrhau bod condomau ar gael yn ddirwystr mewn carchardai ar draws Prydain.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud yn orfodol i bob carchar yng Nghymru i beri bod condomau ar gael yn ddirwystr i boblogaeth gyffredinol y carchardai.**

Gweithred:

## 9. Expand the role of school nurses

Young people can find it difficult to access services that were designed to cater for the needs of adults. Often clinics can be intimidating and their opening hours mean that young people have to play truant from school to attend.

The Royal College of Nursing have called for all secondary schools to be given a school nurse and for those nurses to be able to provide all forms of contraception, including condoms and the morning after pill. We support this call due to the obvious need – UK health protection organisations report that 1 in 10 of the young people they test is positive for chlamydia. Sexually active young people need to be given information and tools to protect themselves. Wales is already a step ahead of the rest of the UK in having a school nurse in every school and now needs to capitalise on this valuable resource.

Some people object to condom distribution in schools on the frankly bizarre grounds that it will encourage young people to have more sex, rather than just safer sex. We believe there is no justification for making it difficult for young people to access the sexual health services they want in the hope that this will somehow deter them from becoming sexually active. Just as with adults, if young people are prevented from managing their own sexual health they will simply take more risks.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to ensure that school nurses in Wales are equipped to provide sexual health information and contraception, including condoms and the morning after pill.**

## 9. Cynyddu rôl nyrsus ysgol

Gall pobl ifainc ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau a gynlluniwyd i fod yn hygyrch i oedolion. Yn aml gall clinigau godi ofn ar bobl ac mae eu hamseroedd agor yn golygu bod pobl ifainc yn gorfod fod yn absennol heb ganiatâd o'r ysgol er mwyn mynd.

Galwodd Coleg Brenhinol Nyrsio ar i bob ysgol uwchradd gael nyrs ysgol ac ar i'r nyrsus hynny allu darparu bob math o atalgenhedlu, gan gynnwys condomau a'r bilsen drannoeth. Cefnogwn yr alwad hon yn wyneb yr angen amlwg – mae mudiadau amddiffyn iechyd ym Mhrydain yn adrodd bod 1 ymhob 10 o'r bobl ifainc y maent yn eu profi yn gadarnhaol ar gyfer clamidia. Mae angen i bobl ifainc sy'n weithgar yn rhywiol dderbyn gwybodaeth ac offer i amddiffyn eu hunain. Mae Cymru eisoes yn gam ymlaen o gymharu â gweddill Prydain am fod gennym eisoes nyrs ar gyfer pob ysgol ond nawr mae eisiau elwa ar yr adnawdd gwerthfawr hwn.

Mae rhai yn gwrthwynebu dosbarthu condomau mewn ysgolion ar y sail chwerthinllyd y bydd yn annog pobl ifainc i gael mwy o ryw, yn hytrach na rhyw ddiogelach yn unig. Credwn nad oes cyfiawnhad dros ei gwneud hi'n anodd i bobl ifainc ddefnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol y mae eu heisiau arnynt yn y gobaith y byddai hyn rywsut yn eu rhwystro rhag mynd yn weithgar yn rhywiol. Fel gydag oedolion hwythau os atelir pobl ifainc rhag rheoli eu hiechyd rhywiol bydd hynny yn golygu mwy o beryglon iddynt.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod nyrsus ysgol yng Nghymru yn alluog i ddarparu gwybodaeth iechyd rhywiol a chyfarpar atalgenhedlu gan gynnwys condomau a'r bilsen drannoeth.**

Gweithred:

## 10. Promote STI screening to all drug users

People who use drugs can be at increased risk of contracting HIV, Hepatitis C and other STIs. This may be due to risks involved in taking the drugs, for example sharing injecting equipment, or simply due to the effects the drugs have, reducing inhibitions and increasing the likelihood of sexual risk taking.

The most recent Health Protection Agency report found that sharing of injecting equipment is more common now than in the mid 1990s with more than half of current injecting drug users surveyed reporting that they had shared injecting equipment in the previous month. Around 1 in 50 injecting drug users in the UK are now living with HIV.

In addition, research, such as that carried out by Sigma Research for their 2005 Gay Men's Sex Survey, found a positive correlation between high numbers of sexual partners in the preceding year and use of non-opiate drugs such as speed, ketamine and cocaine. These drugs can lower inhibitions and are associated with increased sexual risk-taking.

More needs to be done to ensure drug and sexual health services to work together to encourage all drug users to use drugs safely and test regularly for HIV and other STIs. Currently non-opiate drug users can find it difficult to access support and rehabilitation services designed for opiate users and services need to be designed with this in mind.

Action:

**We call on the Welsh Assembly Government to increase investment in projects which promote HIV, Hepatitis and other STI screening to all drug users and encourage wider referral of patients between drug and sexual health services.**

## 10. Hybu sgrinio Heintiau a Drosglwyddir drwy Ryw i bob defnyddydd cyffuriau

Gall pobl sy'n defnyddio cyffuriau fod mewn mwy o berygl o ddal HIV, Hepateitis C a heintiau eraill a drosglwyddir drwy ryw. Gallai hyn fod oherwydd y peryglon ynghlwm wrth gymryd cyffuriau, er enghraifft rhannu offer chwistrellu, neu'n syml oherwydd effaith y cyffuriau eu hunain, sef gwneud pobl yn llai swil a chynyddu posibiliad o ymddwyn yn beryglus yn rhywiol.

Canfu'r adroddiad diweddaraf gan yr Asiantaeth Amddiffyn Iechyd fod rhannu offer chwistrellu yn fwy cyffredin nawr nac y bu ynghanol y nawdegau gyda rhagor na hanner y bobl sy'n chwistrellu cyffuriau ar hyn o bryd a holwyd yn dweud eu bod wedi rhannu offer chwistrellu yn y mis diwethaf. Mae tua 1 ymhob 50 o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau ym Mhrydain erbyn hyn yn byw gydag HIV.

Yn ogystal â hyn canfu ymchwil (er enghraifft Arolwg Rhyw Dynion Hoyw 2005 a wnaed gan Ymchwil Sigma) fod cydberthynas gadarnhaol rhwng niferoedd uchel o bartneriaid rhywiol yn y flwyddyn a fu a defnydd o gyffuriau heb fod yn opiadau fel sbôid, cetamin a chocên. Gall y cyffuriau hyn wneud pobl yn llai swil ac fe'u cysylltir gydag ymddwyn yn beryglus yn rhywiol.

Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod gwasanaethau cyffuriau ac iechyd rhywiol yn cydweithio i annog pob defnyddydd cyffuriau i ddefnyddio cyffuriau yn ddiogel a phrofi'n rheolaidd ar gyfer HIV a heintiau eraill a drosglwyddir drwy ryw. Ar hyn o bryd gall defnyddyddion cyffuriau nad ydynt yn opiadau ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau cefnogi ac adfer a gynlluniwyd ar gyfer defnyddyddion opiadau ac mae angen cynllunio gwasanaethau gan ddwyn hyn mewn cof.

**Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu buddsoddiad mewn prosiectau sy'n hybu sgrinio HIV, Hepateitis a heintiau eraill a drosglwyddir drwy ryw i bob defnyddydd cyffuriau ac annog cyfeiriadau ehangach i gleifion rhwng gwasanaethau cyffuriau ac iechyd rhywiol.**

Gweithred:

**Ymddiriedolaeth Terrence Higgins**

Corff polisi, ymgyrchu, hybu iechyd a darparu gwasanaethau HIV ac iechyd rhywiol ar gyfer Lloegr, yr Alban a Chymru

**Terrence Higgins Trust**

HIV and sexual health policy, campaigning, health promotion and service delivery organisation for England, Scotland & Wales  
[www.tht.org.uk](http://www.tht.org.uk)

**Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol**

Corff datblygu polisi ac ymgyrchu HIV ac AIDS ym Mhrydain

**National AIDS Trust**

UK HIV and AIDS policy development and campaigning organisation  
[www.nat.org.uk](http://www.nat.org.uk)

**Rhwydwaith Polisi HIV Affricanaidd**

Corff ambarel sy'n cynrychioli grwpiau cymunedol Affricanaidd sy'n delio ag HIV, AIDS ac iechyd rhywiol

**African HIV Policy Network**

Umbrella organisation representing African community groups addressing HIV, AIDS and sexual health  
[www.ahpn.org](http://www.ahpn.org)

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Welsh Assembly Government**

Website of the Welsh Assembly Government  
[www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

**UNAIDS**

Cydraglen y Cenhedloedd Unedig ar gyfer HIV ac AIDS

**UNAIDS**

United Nations Joint Programme for HIV and AIDS  
[www.unaids.org](http://www.unaids.org)

**Ymchwil Sigma**

Cymdeithas ymchwil gymdeithasol sy'n arbenigo mewn agweddau ymddygiadol a pholisi ar HIV ac iechyd rhywiol

**Sigma Research**

Social research group specialising in the behavioural and policy aspects of HIV and sexual health  
[www.sigmaresearch.org.uk](http://www.sigmaresearch.org.uk)

**Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol**

Ystadegau a gwybodaeth HIV am Brydain

**National Public Health Service**

UK HIV statistics and information  
[www.nphs.wales.nhs.uk](http://www.nphs.wales.nhs.uk)

**NAM**

Gwybodaeth HIV Prydain a'r byd

**NAM**

UK and global HIV information  
[www.nam.org.uk](http://www.nam.org.uk)

**Cymdeithas Prydain ar gyfer Iechyd Rhywiol ac HIV**

Fforwm ar gyfer clinigyddion iechyd rhywiol ac HIV

**The British Association for Sexual Health and HIV**

Forum for sexual health and HIV clinicians  
[www.bashh.org](http://www.bashh.org)

**Cymdeithas HIV Prydain**

Fforwm ar gyfer clinigyddion HIV

**The British HIV Association**

Forum for HIV clinicians  
[www.bhiva.org](http://www.bhiva.org)

**Cylch Hollbleidiol Senedd San Steffan ar AIDS**

Cylch trawsbleidiol o Aelodau Seneddol ac Arglwyddi sy'n canolbwyntio ar faterion HIV ac AIDS sy'n berthnasol i Brydain

**The All Party Parliamentary Group on AIDS**

Cross-party group of MPs and Lords focussing on HIV and AIDS issues affecting the UK  
[www.appg-aids.org.uk](http://www.appg-aids.org.uk)

Am wybodaeth bellach ar unrhyw fater unigol a amlinellir yn y cyhoeddiad hwn neu am ymchwil berthnasol, cysylltwch â [campaigns@tht.org.uk](mailto:campaigns@tht.org.uk)

For further information on any individual issue outlined in this publication, or for related research, contact [campaigns@tht.org.uk](mailto:campaigns@tht.org.uk)

# Yr elusen HIV ac iechyd rhywiol dros fywyd The HIV and sexual health charity for life

**Gwefan / Website:** [www.tht.org.uk](http://www.tht.org.uk) **THT Direct:** 0845 12 21 200

**Swyddfa gofrestredig / Registered office:** 314-320 Gray's Inn Road, London WC1X 8DP

**Ffôn / Tel:** 020 7812 1600 **Ebost / Email:** [info@tht.org.uk](mailto:info@tht.org.uk)

© Ymddiriedolaeth Terrence Higgins Trust, Hydref / October 2007, Rhifyn 1af / 1st Edition. Côd / Code 804  
Mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins yn elusen gofrestredig, rhif 288527. / Terrence Higgins Trust is a  
registered charity no. 288527. Rhif gofrestredig y cwmni 1778149 / Company reg. no.1778149.

Cofrestredig yn Lloegr. / Registered in England. Cwmni wedi'i gyfyngu drwy warant. / A company limited by guarantee.

Cynllun / Design **Felton Communication** 020 7405 0900 Cyf. / Ref: 10529